



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cwmgelli Lodge Ltd

**Cwmgelli Lodge
Lôn Pennant
Coed-duon
NP12 1BR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/01/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cwmgelli Lodge Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cwm Gelli Care Limited
Lleoedd cofrestredig	26
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	25 Mai 2023
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan y gwasanaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau llesiant personol, ac maent yn cael canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael.

Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n darparu canllawiau clir i'r staff gofal ar sut i ddiwallu eu hanghenion o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal. Gwelsom enghreifftiau o'r staff gofal yn ymateb yn gynnes ac yn barchus, gan ddefnyddio arddulliau cyfathrebu unigol y bobl.

Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da ac yn cael ei reoli i sicrhau y gall y bobl wneud defnydd llawn o'r lle sydd ar gael iddynt. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn ddiogel i'r bobl sy'n byw yno. Gwelsom fod y cyfarpar arbenigol mewn cyflwr da ac yn cael ei storio'n ddiogel.

Mae'r gwasanaeth a'r tîm rheoli wedi gweithio'n galed i wella ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth ac maent wedi cyflawni'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Llesiant

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael ac am y gwasanaeth yn gyffredinol. Dywedodd un person wrthym “*Staff are friendly, especially when you first come here.*” Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y dewisiadau sy'n effeithio ar eu diwrnod, gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn ystod ein hymweliad arolygu. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth o sut i ddiwallu anghenion y bobl. Roedd ansawdd y rhyngweithio a'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r staff gofal wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch, a chaiff eu hamgylchiadau unigol eu hystyried. Gwelsom amrywiaeth eang o weithgareddau'n cael eu cynnal a oedd yn galluogi pawb i gymryd rhan mewn ffordd a oedd yn addas ar eu cyfer nhw. Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae gan y gwasanaeth bolisiau a gweithdrefnau clir i ddiogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin. Gwelsom fod gan y gwasanaeth strwythur clir ar gyfer rhoi gwybod am faterion diogelu a'u monitro, a byddai'r bobl yn hyderus yn cyflwyno pryderon neu gwynion i'r tîm rheoli. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau y ceir adborth gan y bobl a'u cynrychiolwyr, yn ogystal ag adborth gan staff mewn amrywiaeth o rolau. Mae'r adborth gan gynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol. Dywedodd un aelod o deulu wrthym “*Some staff are excellent; some need to know more about people.*” Gwelsom fod y gwasanaeth bellach wedi recriwtio staff gofal newydd sydd yn dysgu am eu rolau a'r bobl yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae'r gwasanaeth wedi penodi rheolwr newydd ers yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y bobl a'r staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth a ddarperir, a'i fod wedi gwella canlyniadau i'r bobl. Gwelsom fwy o gysondeb wrth ddarparu gofal a chymorth yn unol â chynlluniau personol y bobl. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r gwasanaeth yn well er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff gofal wrthym yr hoffent fwy o gymorth a chyfathrebu gan y tîm rheoli. Gall y bobl symud o amgylch eu cartref fel y dymunant. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r ardaloedd cymunedol yn ogystal â'r ardaloedd tawelach fel y dymunant. Caiff rhai o'r bobl gymorth i adael y gwasanaeth i fwynhau eu cymuned leol. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno.

Gofal a Chymorth

Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Gwelsom fod y staff gofal a chydgyssylltwyr gweithgareddau yn ystyried anghenion unigol pob person yn y gwasanaeth er mwyn gallu eu helpu i gymryd rhan mewn ffordd addas. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar waith sy'n glir ac yn ddisgrifiadol. Maent yn darparu canllawiau penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn helpu'r staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl o ddydd i ddydd. Dywedodd un aelod o deulu wrthym *"Cwmgelli lodge is a fantastic home... I know my family member is looked after and well cared for."* Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a ddarperir gan y gwasanaeth, sydd wedi cael sgôr o bump (da iawn) gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Caiff canlyniadau llesiant y bobl eu nodi'n unol â'u hanghenion unigol. Mae canllawiau clir yn y cynlluniau er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Mae'r gwasanaeth yn casglu gwybodaeth am anghenion y bobl cyn iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth. Gwelsom fod gwybodaeth rhag-asesu ar gael ar gyfer rhai o'r bobl ar y system electronig sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw cofnodion rhai o'r bobl ar gael yn electronig eto. Caiff risgiau ac anghenion arbenigol eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Gwelsom ganllawiau clir i helpu'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol, a chaiff asesiadau eu hadolygu fel rhan o'r broses o adolygu'r cynlluniau personol. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Os na all y bobl gadw eu hunain yn ddiogel, dilynir y gweithdrefnau angenrheidiol. Mae trefniadau priodol ar waith gyda'r awdurdod lleol i sicrhau y gwneir trefniadau er lles pennaf y bobl, pan fo angen. Gwelsom fod rhai o'r bobl yn aros am asesiadau, ond mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac mae'n ymwybodol o'r hyn sydd ei angen.

Ni ellir rhoi sicrwydd i'r bobl bod eu nodiadau gofal bob amser yn cael eu cofnodi mewn modd amserol, sy'n golygu nad ydynt bob amser yn cynnig cofnod cywir o'r gofal a'r cymorth a ddarparwyd. Fodd bynnag, gwelsom fod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o'r bylchau yn y cofnodion ac yn gweithio i wella amllder ac amseroldeb y cofnodion. Mae gan y gwasanaeth bolisi clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â meddyginiaethau yn ddiogel ac y cânt eu rhoi mewn ffordd ddiogel. Caiff y bobl gymorth â'u meddyginiaeth yn unol â'r arferion gorau. Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaeth, yn ogystal â'r prosesau archwilio, wedi gwella'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth wedi gwella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol allanol er mwyn gwella'r prosesau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.

Yr Amgylchedd

Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn fawr ac wedi'u personoli i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y bobl yn addurno eu hardaloedd personol â lluniau a thrugareddau. Mae gan y bobl le yn eu hystafelloedd i wneud diodydd a byrbrydau, a gallant hefyd ddefnyddio'r ceginau bach ar bob llawr. Mae digon o le storio yn ystafelloedd gwely'r bobl iddynt allu cael gafael ar eu heitemau personol yn hawdd. Mae ystafelloedd ymolchi ensuite ar gael i'r bobl, yn ogystal ag ystafelloedd ymolchi cymunedol â chyfarpar arbenigol. Mae'r cyfarpar yn cael ei storio a'i gynnal a'i gadw'n ddiogel. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae digon o le i'r bobl gymdeithasu yn ogystal â threulio amser ar eu pen eu hunain.

Mae gardd ddymunol ac ardal "cwtch" lle gall y bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r gwasanaeth wrthi'n cysylltu â busnesau yn y gymuned er mwyn cynnig profiad salon yn yr ystafell trin gwallt ar y safle. Gwelsom fod yr amgylchedd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau y gallai'r bobl dreulio eu hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Nid yw'r lolfeydd ar y ddau lawr yn cael eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd, ond mae'r gwasanaeth yn bwriadu eu hadnewyddu, er mwyn gwneud mwy o ddefnydd ohonynt a chynnig mannau ychwanegol i'r bobl dreulio eu hamser. Mae'r lleihad o ran y cyfyngiadau amgylcheddol yn y cartref o fudd i'r bobl. Mae'r drysau i'r ddau lawr bellach ar agor, sy'n golygu y gall y bobl symud o amgylch y gwasanaeth yn hwylus. Gwelsom fod pob eitem a allai achosi niwed megis deunyddiau glanhau a chypyrddau trydanol yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo.

Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn diwallu anghenion y bobl. Nodwyd gennym fod rhai bylchau wrth gofnodi'r wybodaeth ofynnol ar y gwaith papur sy'n gysylltiedig â gofynion tân, yn ogystal â rhai bylchau yn y cofnodion cynnal a chadw. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac yn cymryd camau i ymdrin â hyn gyda'r tîm. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff gofal a'r staff nyrsio yn hyderus ac yn gymwys i wagio'r adeilad yn unol â chynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae pob tystysgrif diogelwch ar gyfer y gwasanaeth ar gael ac yn gyfredol. Mae'r tîm cynnal a chadw a'r tîm rheoli yn goruchwyllo'r broses ar gyfer tystysgrifau diogelwch yn ofalus.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth wedi penodi rheolwr newydd ers yr arolygiad diwethaf, ac mae'n gweithio i wella ymarfer a'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r rheolwr yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn ymwybodol o'r bylchau wrth gadw cofnodion ar draws gwahanol feysydd o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn gweithio i ymdrin â'r rhain, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Mae'r tîm rheoli yn ystyried anghenion y bobl ac yn sicrhau bod y rota yn adlewyrchu hyn. Pan fo anghenion y bobl yn newid, mae'r tîm rheoli yn addasu'r anghenion staffio er mwyn sicrhau y caiff iechyd, diogelwch a llesiant y bobl eu cynnal. Mae'r gwasanaeth yn dilyn arferion recriwtio diogel ac yn sicrhau bod y staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Gwelsom hefyd fod y nyrsys wedi'u â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'r darparwr yn helpu'r staff i gynnal eu cofrestriadau proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i helpu'r staff i gwblhau eu hyfforddiant perthnasol. Mae llwybrau sefydlu er mwyn helpu aelodau o staff newydd i ymgymryd â gwahanol rolau yn y gwasanaeth. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff gofal yn gallu darparu cymorth yn Gymraeg, fel rhan o Gynnig Rhagweithiol y gwasanaeth.

Mae'r staff yn cael cymorth a sesiynau goruchwyllo gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd rhai o'r staff wedi cael digon o sesiynau goruchwyllo i ddiwallu eu hanghenion, nac i fodloni'r gofynion rheoliadol. Nodwyd gennym fod y sesiynau goruchwyllo a gynhaliwyd yn amrywio o ran ansawdd, ac nad oedd pob un yn rhoi'r cyfle i'r staff fyfyrion ar eu hymarfer na'i drafod. Dywedodd rhai o'r staff gofal wrthym fod angen i'r tîm rheoli ddarparu mwy o gymorth a sesiynau goruchwyllo. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae trefniadau llywodraethu digonol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Caiff yr Unigolyn Cyfrifol ei gefnogi gan y tîm rheoli i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir. Gwneir rhywfaint o waith i ddadansoddi'r data a gesglir, a chaiff y dadansoddiadau hyn eu crynhoi a'u cyflwyno i ddarparwr y gwasanaeth yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn casglu adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Caiff yr adborth a gesglir ei ystyri'r a chymerir camau gweithredu dilynol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
21	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau yn y cartref yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol er mwyn gallu darparu gofal a chymorth cyson mewn ffordd sy'n hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarnu priodol.	Newydd
59	Nid yw'r cofnodion bob amser yn cael eu cwblhau mewn modd amserol, ac nid ydynt yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn gywir, nac yn cofnodi pob ymarfer tân. Mae'r tîm rheoli yn ymwybodol o hyn ond nid yw wedi cymryd camau gweithredu amserol i ymdrin â'r bylchau.	Heb Gyflawni
60	Sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol a heb oedi	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 16/02/2024